OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

Chief Examiner's Report

Prosesu Geiriau Level 3 – 04606
Summer 2009

Ychydig o sgriptiau a dderbyniwyd ar gyfer yr arholiad hwn. Roedd safon rhan fwyaf o'r sgriptiau yn dderbyniol. Cosbwyd am wallau teipio yn bennaf ond hefyd am rai gwallau cyflwyniad ac am fethu â dilyn y cyfarwyddiadau bob tro.

Dogfen 1

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dderbyniol ar y cyfan. Llwyddodd bron pob ymgeisydd i newid hyd y llinell – os na wnaed hynny, cosbwyd 1 gwall dan 4T. Methodd ambell ymgeisydd â llinellu'r blwch testun yn ôl y mesuriadau a roddwyd. Roedd hyn yn arwain at 1 gwall dan 4E. Llwyddodd bron pob ymgeisydd i leoli'r blwch testun yng nghanol y testun yn llorweddol yn ôl y cyfarwyddyd. Ambell ymgeisydd yn unig a fethodd roi testun i amgylchynu'r blwch testun ar bob ochr (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i fewnleoli'r testun o'r ymyl chwith ond ni lwyddodd pawb i'w fewnleoli o'r ymyl dde yn ogystal (4V). Cafwyd ambell enghraifft lle nad oedd yr ymgeisydd wedi rhoi'r pennawd a'r troedyn yn y ffont a'r maint a nodwyd (2.3). Ni lwyddwyd bob tro i chwilio am a newid testun yn gywir (2.3). Llwyddodd bron pawb i gopïo'r testun yn gywir ac ychydig iawn a fethodd â newid y testun i briflythrennau yn ôl y cyfarwyddyd (2.3).

Dogfen 2

Cwblhawyd y ddogfen hon yn dda. Cafwyd ambell enghraifft lle nad oedd yr ymgeisydd wedi cynnwys y copi oedd yn dangos y tracio newidiadau. Cosbwyd 1 gwall am hyn (2.3). Cosbwyd un gwall hefyd (2.2) am beidio â chynhyrchu'r ail gopi. Llwyddodd pawb i newid trefn y penawdau ac i ddileu ac ychwanegu testun yn ôl y gofyn. Llwyddodd pawb i ddefnyddio colofnau yn gywir a sicrhau'r lled cywir yn ogystal.

Dogfen 3

Roedd safon y ddogfen hon yn dderbyniol. Methodd ambell ymgeisydd ag alinio'r pwyntiau degol (4Q) a hefyd methodd rhai â theipio penawdau'r colofnau yn union fel y cyflwynwyd hwy yn y ddogfen (2.3). Llwyddodd y rhan fwyaf i newid trefn y colofnau yn ôl y gofyn ond methodd ambell un ag ad-drefnu'r testun o fewn y tabl. Er i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr lwyddo i linellu'r tabl, cafwyd ambell enghraifft lle roedd llinellau ychwanegol yn y tabl nad oeddent i'w gweld yn y copi arholiad. Methodd ambell ymgeisydd ag ychwanegu cysgod at un golofn yn ôl y cyfarwyddyd (2.3). Llwyddodd pawb i gynhyrchu'r ail gopi a llwyddodd pawb i gynnwys y wybodaeth gywir o'r Daflen Adnoddau.

Dogfen 4

Dyma'r ddogfen a gwblhawyd orau. Defnyddiodd pawb bapur A4 tirlun ond ni ddefnyddiodd pawb y ffont a'r maint cywir (2.3). Llwyddodd pawb i gynnwys y llun cywir ond nid pawb a lwyddodd i newid ei led yn ôl y gofyn (2.3). Llwyddodd pob ymgeisydd i gopïo'r paragraff yn gywir a chanolwyd a thanlinellwyd yn gywir bob tro. Cosbwyd rhai gwallau teipio yma.

Only a few scripts were received for this examination. The standard of the majority of the scripts was satisfactory. Keying in errors were mostly penalised but penalties were also incurred for presentation errors and failure to follow instructions at all times.

Document 1

On the whole this document was completed satisfactorily. Nearly all candidates succeeded in changing the line length – if this was not done correctly, a penalty was incurred under 4T. Some candidates failed to use the correct measurements for the text box and this was 1 error under 4E. Nearly all candidates succeeded in centring the text box horizontally within the text according to the instruction. A few candidates failed to ensure that text wrapped around the text box on all sides (2.3). All candidates managed to indent the text from the left margin but not all candidates indented the text from the right margin as well (4V). There were a few instances where candidates had not used the correct font and size for the header and footer (2.3). Not all candidates managed to complete the search and replace correctly (2.3). Nearly all candidates succeeded in copying text correctly and only a few failed to change text to capital letters according to the instruction (2.3).

Document 2

This document was completed well. There were some examples of the candidate not having included the copy that showed the track changes. This was penalised 1 error under 2.3. One error was also incurred (2.2) for not including the second copy. All candidates managed to change the order of the headings and to delete and insert text according to the instructions. All were successful in using columns and in ensuring the correct width of these columns.

Document 3

The standard of this document was satisfactory. Some candidates did not align the decimal points (4Q) and some did not type the column headings exactly as presented in the examination paper (2.3). Most of the candidates changed the order of the columns according to the instruction but some did not sort the text within the table. Although most candidates succeeded in ruling the table correctly, there were some instances of extra lines in the table which did not appear in the examination paper. A few candidates did not add shading to one column as instructed (2.3). All candidates produced a second copy and all candidates extracted the correct text from the Resource Sheet.

Document 4

This document was completed best. All candidates used A4 landscape paper but not all used the correct font and size (2.3). All candidates managed to include the correct picture but not all managed to change the width according to the instruction (2.3). All candidates successfully copied the paragraph and centring and underlining were done correctly each time. Some keying in errors were penalised in this document.